Medi 2025

Annwyl:
Yr holl gleifion sydd wedi cofrestru â Phractis Gogledd Celynen

**Cais gan Bractis Gogledd Celynen i gau Meddygfa Cangen Ffordd Ashfield, Trecelyn**

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol dyddiedig Mehefin 2025, ysgrifennaf i'ch hysbysu bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cwblhau'r broses o gau'r feddygfa gangen mewn perthynas â'r cais gan Bartneriaeth Meddygon Teulu Practis Gogledd Celynen i gau safle eu meddygfa gangen yn Ffordd Ashfield, Trecelyn.

Cyfarfu'r Panel Adolygu Practis Cangen ar 7 Awst 2025 ac roedd yn cynnwys cynrychiolaeth gan Llais Cymru, eich llais mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Phwyllgor Meddygol Lleol Gwent, y corff cynrychioliadol statudol ar gyfer Meddygon Teulu sy'n gweithio yng Ngwent. Ystyriodd y panel yr holl ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r broses ymgysylltu gan gleifion a phartïon â diddordeb ac adolygwyd cais y practis a'r wybodaeth ategol a gyflwynwyd gan y Bartneriaeth Meddygon Teulu.

Argymhelliad y panel oedd cefnogi'r cais i gau Meddygfa Cangen Ffordd Ashfield, Trecelyn sydd wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Bwrdd Iechyd.

Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn annifyr i rai cleifion, fodd bynnag, byddwch yn sicr na fydd unrhyw ostyngiad yn y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a ddarperir gan Bractis Gogledd Celynen o ganlyniad i gau cangen Ffordd Ashfield. Bydd yr holl wasanaethau ac apwyntiadau a ddarperir ar hyn o bryd yn Ffordd Ashfield yn cael eu hadleoli i'r prif safle yng Nghrymlyn.

Roedd y panel yn cydnabod pryderon trigolion ynglŷn â pharcio ar Stryd y Goron, Crymlyn lle mae prif safle Practis Gogledd Celynen wedi'i leoli. Mae'r practis wedi ailddatgan eu safbwynt ar y mater hwn a bydd yn arddangos arwyddion clir i atal parcio gwrthgymdeithasol. Os ydych chi'n mynychu'r feddygfa fel claf, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio naill ai maes parcio'r

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Ty Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Tel: 01495 241200

practis neu'r maes parcio cyhoeddus sydd wedi'i leoli dafliad carreg o'r feddygfa.

Felly, bydd Meddygfa Cangen Ffordd Ashfield yn cau o ddydd Llun 1 Rhagfyr 2025. Bydd cleifion sy'n mynychu gwasanaethau yn y feddygfa hon ar hyn o bryd yn gallu parhau i gael mynediad at eu hystod lawn o Wasanaethau Meddygol Cyffredinol o'r prif safle yng Nghrymlyn ar ôl yr amser hwn.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth gan y byddwch chi'n parhau i fod yn gofrestredig gyda Phractis Gogledd Celynen. Fel arall, gallwch ddewis cofrestru gyda phractis cyfagos amgen os hoffech wneud hynny, ac ar yr amod eich bod yn byw o fewn ffiniau'r practis hwnnw.

Mae manylion practisau cyfagos ac ymatebion i bryderon a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu wedi'u cynnwys yn y ddogfen amgaeedig o'r enw:
**Ffordd Ashfield, Cau Meddygfa Cangen Trecelyn - Cwestiynau cyffredin.**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241254/258.

Yn gywir ,



**Lloyd Hambridge**
**Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor**